Bu'n dymor llwyddiannus i'r tîm pêl-droed - cyrraedd y brig drwy ennill pob gêm. Cyraeddasant y rownd derfynol yn y gystadleuaeth i ysgolion y cylch a hefyd ennill eu hadran yn y gemau pump bob ochr ond boddi yn ymyl y lan fu eu hanes yn y rownd derfynol. Rhaid canu clodydd y merched hefyd. Enillwyd y darian hoci ganddynt a daethant i'r rownd derfynol yn y gystadleuaeth pêl-droed pump bob ochr i ferched.

Braf oedd gweld nifer dda o'r plant yn cystadlu ar lwyfan Eisteddfod y Penrhyn ddiwedd Ebrill. Gwnaeth pob un ei waith yn rhagorol a chafwyd ambell wobr. Rhaid dysgu colli yn ogystal ag ennill, felly daliwch ati bob un.

Cynhaliwyd cwis dan nawdd Cymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol un noson. Daeth dros ugain tîm i'r gystadleuaeth - dau aelod ym mhob tîm - un rhiant ac un plentyn. Cafwyd noson hwylus a diddorol ac ar ddiwedd yr ornest, tîm Lerpwl oedd ar y brig, sef Mr William Howells a'i fab Meilyr.